# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Medi 2020

Amser: 09.51 - 11.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6456) yn:

http://senedd.tv/cy/6456

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Angela Burns AS<br>Delyth Jewell AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Suzy Davies AS, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Staff y Pwyllgor: | Adrian Crompton<br>Matthew Mortlock<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Ann-Marie Harkin |

| | |
|---|---|
| | Ian Hughes<br>Nick Raynor<br>Nick Selwyn<br>Mike Usher |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ac ar y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau.

### 2a Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (28 Awst 2020)

### 2b Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (28 Awst 2020)

### 2c Gwasanaethau radioleg – adroddiad cryno cenedlaethol Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (28 Awst 2020)

### 2d Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (28 Awst 2020)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd

3.1 Holodd yr Aelodau'r tystion fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar y Cyfrifon.

3.2 Cytunodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, i ddarparu rhywfaint o eglurder / gwybodaeth ychwanegol am nifer o bwyntiau a godwyd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Blaenraglen waith

Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

## 7 Cysgu ar y Stryd yng Nghymru - Problem Pawb; Cyfrifoldeb Neb: Adroddiad Archwilio Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn iddynt ystyried yr agweddau polisi ac y bydd yr adolygiad o'r Partneriaethau Strategol yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad sydd ar ddod i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 8 Atal Twyll yng Nghymru: Adroddiad Archwilio Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i holi Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y tymor, fel rhan o'r gwaith craffu ar ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

## 9 Rhaglen Tynnu Asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd: Adroddiad Archwilio Cymru

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i holi Llywodraeth Cymru yn ystod y sesiwn yn ddiweddarach yn y tymor ar Gyllid y GIG. Cytunodd y Cadeirydd hefyd i gymryd tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.